

## Proses ar gyfer ystyried arsylwadau ar gyfer adroddiadau a chwynion y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth (CNB)

Mae QAA yn gwahaniaethu rhwng y broses ar gyfer ystyried arsylwadau sy'n gyfystyr ag apêl yn erbyn adroddiad QAA, a chwynion.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ystyriaeth o arsylwadau, a chwynion ffurfiol, wedi'u cynllunio i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, ac ymdrinnir â hwy gan dîm Llywodraethiant QAA. Ni fydd unrhyw un sy'n ymwneud ag ystyried arsylwadau, neu gŵyn, wedi bod yn gysylltiedig â'r mater yn y gorffennol.

### Ystyriaeth o arsylwadau

Pan anfonir adroddiad terfynol at y CNB, mae gennych gyfle i wneud sylwadau ynghylch cynnwys yr adroddiad hwnnw. Os bydd yr adroddiad yn cynnwys canlyniad negyddol, a bod yr arsylwadau'n ymwneud â'ch barn:

- bod afreoleidd-dra gweithdrefnol yn y modd y cynhaliwyd yr adolygiad, fel bod cyfreithlondeb y penderfyniad neu'r penderfyniadau a wnaed yn cael ei gwestiynu, a/neu
- bod deunydd a oedd yn bodoli ar yr adeg y gwnaeth y tîm ymwelwyr ei benderfyniad a fyddai, pe bai wedi bod ar gael cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau, wedi dylanwadu ar ddyfarniad y tîm, ac mae rheswm da pam nad oedd ar gael i'r tîm adolygu,

yna bydd y CNB yn gofyn i QAA ystyried yr arsylwadau hyn o dan y broses hon. Pan fyddwch yn gwneud arsylwadau ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â'r pwyntiau hyn, bydd y CNB yn ystyried y rhain.

Rhaid cyflwyno'r arsylwadau o fewn y cyfnod penodol a hysbysir i chi pan fyddwch yn derbyn copi o'r adroddiad terfynol. Bydd y sylwadau'n cael eu cydnabod o fewn tri diwrnod gwaith o'u derbyn ac yn cael eu hanfon ymlaen at dîm Llywodraethiant QAA. Oni nodir yn wahanol, byddwn yn trin Prif Arweinydd y Digwyddiad fel y cyswllt ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â'r arsylwadau. Ni fydd QAA yn trafod yr arsylwadau ag unrhyw berson arall ar wahân i Brif Arweinydd y Digwyddiad, Gohebydd Swyddogol, neu'r Brif Fydwaig er Addysg (ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth yn unig).

Fel arfer, person cyswllt QAA fydd pennaeth y tîm Llywodraethiant neu ei enwebai, a fydd yn rhoi gwybod i'r darparrydd am unrhyw gynnydd. Mae'n rhaid i bob cyswllt pellach gyda QAA mewn perthynas â'r arsylwadau gael ei wneud trwy'r tîm Llywodraethiant.

Fel arfer, bydd y broses o ystyried arsylwadau sy'n gyfystyr ag apêl yn erbyn adroddiad QAA yn cael ei chwblhau o fewn 12 wythnos i dderbyn yr arsylwadau. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosib y bydd angen ymestyn y cyfnod hwn. Bydd y tîm Llywodraethiant yn hysbysu'r darparrydd o'r amserlenni tebygol ar ddechrau'r broses o ystyried yr arsylwadau, a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r NMC ynghylch unrhyw gynnydd.

Wrth gyflwyno arsylwadau, gofynnwn i'r darparrydd nodi'n glir ac yn gryno'r ffyrdd y mae'n ystyried bod yr adolygiad yn ddiffygiol ar sail y rhesymau posibl a nodir uchod. Wrth wneud hynny, dylai'r darparrydd nodi'n benodol y diffygion honedig a arweiniodd at y dyfarniad. Gall

y darparrydd gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau ei honiadau, a gofynnwn fod unrhyw honiadau o'r fath yn canolbwyntio ar y rheswm penodol dros yr arsylwadau, gan gynnwys dogfennau ategol uniongyrchol berthnasol y dylid eu labelu'n glir a'u cyfeirnod. Cyfrifoldeb y darparrydd yw sicrhau bod yr arsylwadau'n cael eu cwblhau'n glir a bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei darparu. Bydd QAA yn prosesu'r holl sylwadau ar y ffurf y'u cyflwynwyd yn wreiddiol, ac ni fydd yn ceisio unrhyw eglurhad neu ymhelaethiad.

Bydd yr adroddiad terfynol, y sylwadau ac unrhyw dystiolaeth gysylltiedig yn cael eu hystyried gan ddau adolygydd annibynnol. Ymwelwyr y CNB yw'r rhain sydd wedi'u hyfforddi ym methodoleg yr adolygiad yr apelir yn ei erbyn, nad ydynt wedi ymwneud â'r broses adolygu o'r blaen ac nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau â'r darparrydd.

Bydd yr adolygwyr annibynnol (ar wahân) yn ystyried y deunyddiau dogfennol ac yn dod i un o'r dyfarniadau a ganlyn:

- Nid yw'n ymddangos bod yr achos a gyflwynwyd yn yr arsylwadau sy'n ymwneud â'r materion i'w hystyried gan QAA yn gyfystyr ag afreoleidd-dra gweithdrefnol a/neu'n dangos presenoldeb deunydd a fyddai wedi newid unrhyw ddyfarniad a wnaed.
- Mae'n ymddangos bod yr achos a gyflwynwyd yn yr arsylwadau sy'n ymwneud â'r materion i'w hystyried gan QAA yn gyfystyr ag afreoleidd-dra gweithdrefnol a/neu'n dangos presenoldeb deunydd a fyddai wedi newid unrhyw ddyfarniad a wnaed a:
  - gwneir argymhelliad (gyda rhesymau) i'r tîm ymwelwyr ailystyried y dyfarniadau yn yr adroddiad terfynol,
  - gwneir argymhelliad (gyda rhesymau) y dylid ailadrodd y cyfan neu ran o'r broses adolygu (gyda thîm newydd o ymwelwyr y CNB) a pharatoi adroddiad terfynol newydd.

Os na fydd y ddau adolygydd yn dod i'r un dyfarniad, gofynnir i drydydd adolygydd ystyried y deunyddiau dogfennol, a'r canlyniad terfynol fydd beth bynnag a benderfynir gan yr adolygydd hwn (hynny yw, barn y mwyafrif).

Bydd y CNB yn cael ei hysbysu o ganlyniad y broses hon. Bydd QAA yn ceisio dilyn yr argymhellion a wnaed gan yr adolygwyr annibynnol a bydd adroddiad terfynol diwygiedig neu newydd yn cael ei baratoi.

Bydd hyn yn arwain at gyfle pellach i'r darparrydd wneud arsylwadau yn unol â'r gofynion statudol ar yr adeg briodol.

Ni fydd y CNB yn gwneud penderfyniad ar gymeradwyo rhaglen nes bod QAA, yn unol â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), wedi gorffen ystyried unrhyw arsylwadau sy'n gyfystyr ag apêl o dan y broses hon ac wedi anfon adroddiad terfynol diwygiedig neu newydd at y CNB. Nid yw'r broses hon yn hawl statudol i herio penderfyniad y CNB ar gymeradwyaeth ac mae'n berthnasol i adroddiad QAA yn unig.

## Cwynion

Mae cwyn yn fynegiant o anfodlonrwydd unigolyn ynghylch ei brofiad o ddelio â QAA. Gall cwynion gael eu gwneud gan unigolion neu ar ran sefydliad yr unigolyn.

Os derbynnir cwyn ffurfiol ar yr un pryd ag y mae'r broses arsylwadau'n cael ei defnyddio fel y nodir uchod, bydd y gŵyn yn cael ei hatal nes bod yr adolygwyr annibynnol wedi gwneud eu hargymhellion.

Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o weithdrefnau cwyno, byddem yn annog unrhyw un sy'n anfodlon â'n gwasanaeth i siarad yn gyntaf â'r person y maent wedi bod yn delio â nhw yn QAA, fel y gallant geisio cynorthwyo a chanfod datrysiaid. Os ydych wedyn yn dymuno

gwneud cwyn ffurfiol, dylech gyfeirio at ein [Gweithdrefn Gwyno](#), sydd ar gael ar ein gwefan. Mae'n darparu manylion y sawl y dylech chi gysylltu â hwy a sut yr ymdrinnir â'ch cwyn, yr amserlenni dangosol a'r canlyniadau posibl.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025  
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557135 (Cymraeg)  
Gwefan: [www.qaa.ac.uk/cy](http://www.qaa.ac.uk/cy)